OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1288 (Cy.165) (C.45)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2012

*Gwnaed - - - - 14 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau sydd wedi eu cynnwys yn adran 40(2)(b) o Ddeddf Iechyd 2009(**1**).

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "arwynebedd perthnasol y llawr" ("*relevant floor area*"), mewn perthynas â siop, yw arwynebedd mewnol y llawr o gymaint o'r siop ag sy'n cynnwys, neu sy'n rhan o adeilad ond gan eithrio unrhyw ran o'r siop nad yw'n cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethu cwsmeriaid mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau nac ar gyfer arddangos nwyddau;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 2009;

mae i "gwerthwr tybaco arbenigol" yr ystyr a roddir i "*specialist tobacconist*" yn adran 6 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002(**2**);

ystyr "pecyn" ("*package*") yw unrhyw flwch, carton neu gynhwysydd arall;

ystyr "pecyn gwreiddiol" ("*original package*") yw'r pecyn y cyflenwyd y sigaréts neu'r tybaco rholio â llaw ynddo gan y gweithgynhyrchwr neu'r mewnforiwr at ddibenion manwerthu;

ystyr "siop fawr" ("*large shop*") yw siop lle y mae arwynebedd perthnasol y llawr yn fwy na 280 o fetrau sgwâr; ac

ystyr "swmpwerthwr tybaco" ("*bulk tobacconist*") yw siop sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco (p'un a yw'n gwerthu cynhyrchion eraill neu beidio) ac y mae ei gwerthiannau sigaréts neu dybaco rholio â llaw, a fesurir yn unol â pharagraff (4), yn cydymffurfio â'r amodau canlynol—

(**1**) 2009 p.21.
(**2**) 2002 p.36.

(i) bod o leiaf 90% o'i gwerthiannau sigaréts yn rhai mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu o 200 o sigaréts neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol, a bod y gweddill mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu o 100 o sigaréts neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol; a

(ii) bod o leiaf 90% o'i gwerthiannau tybaco rholio â llaw yn rhai mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu yn pwyso 250 gram neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol, a bod y gweddill mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu yn pwyso 125 gram neu fwy yn eu pecyn gwreiddiol;

(4) Mae'r gwerthiannau y cyfeiriwyd atynt yn y diffiniad o "swmpwerthwr tybaco" i'w mesur yn ôl y pris gwerthu—

(a) yn ystod y cyfnod mwyaf diweddar o ddeuddeng mis y mae cyfrifon ar gael ar ei gyfer; neu

(b) yn ystod y cyfnod ers sefydlu'r siop, os nad yw wedi ei sefydlu'n ddigon hir i'r cyfrifon ar gyfer deuddeng mis fod ar gael.

**Diwrnodau penodedig**

**2.**—(1) 1 Mehefin 2012 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol Atodlen 4 i'r Ddeddf—

(a) paragraff 7(6);

(b) paragraff 8(1) a pharagraff 8(3); ac

(c) paragraff 2 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau a restrir yn (a) a (b).

(2) 3 Rhagfyr 2012 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol y Ddeddf—

(a) adran 21 (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco etc.) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, ac i'r graddau y mae'n mewnosod adrannau 7A, 7B a 7C o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco, arddangosiadau tybaco: eithriadau ac amddiffyniad ac arddangosiadau: prisiau cynhyrchion tybaco), at ddibenion siopau mawr nad ydynt yn swmpwerthwyr tybaco nac yn werthwyr tybaco arbenigol;

(b) y paragraffau canlynol o Atodlen 4, ac adran 24 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny—

(i) paragraff 6(2) a pharagraff 6(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r is-baragraff hwnnw;

(ii) paragraff 10;

(iii) paragraffau 11 a 12 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym;

(iv) paragraff 2 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau a restrir yn (i) i (iii).

(3) 6 Ebrill 2015 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol y Ddeddf—

(a) adran 20 (gwaharddiad ar hysbysebu: eithrio gwerthwyr tybaco arbenigol) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 21 (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco etc.) i'r graddau y mae'n mewnosod adrannau 7A, 7B a 7C o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002, ac i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(c) y paragraffau canlynol o Atodlen 4, ac adran 24 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny—

(i) paragraff 2 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(ii) paragraff 3; a

(iii) paragraff 4(2) a (5) a pharagraff 4(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r is-baragraffau hynny.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

14 Mai 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r trydydd gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Iechyd 2009 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, yng Nghymru, ddarpariaethau adrannau 20 a 21 o'r Ddeddf, sy'n gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth flaenorol mewn perthynas â thybaco.

Mae hefyd yn dwyn i rym, yng Nghymru, ddarpariaethau yn Atodlen 4 i'r Ddeddf (sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â thybaco). Mae'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym ar 1 Mehefin 2012 ac sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gymryd drosodd yr achosion sy'n ymwneud â throsedd a gyflawnwyd yng Nghymru ac a gychwynnwyd yng Nghymru a Lloegr gan berson arall o dan unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 neu unrhyw reoliadau a wneir odani.

Mae darpariaethau mewn perthynas ag arddangos prisiau cynhyrchion tybaco yn cael eu cychwyn, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, ar 3 Rhagfyr 2012 at ddibenion siopau mawr (fel y'u diffinnir) ac at bob diben arall ar 6 Ebrill 2015.

Mae darpariaethau mewn perthynas â gwahardd arddangosiadau tybaco ac â'r eithriadau ac amddiffyniad sy'n gysylltiedig â hwy yn cael eu cychwyn, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, ar 3 Rhagfyr 2012 at ddibenion siopau mawr nad ydynt yn swmpwerthwyr tybaco (fel y'u diffinnir) a gwerthwyr tybaco arbenigol (fel y'u diffinnir yn adran 6 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002) ac at bob diben arall ar 6 Ebrill 2015.

Mae darpariaethau mewn perthynas ag eithrio gwerthwyr tybaco arbenigol o'r gwaharddiad ar hysbysebu yn cael eu cychwyn ar 6 Ebrill 2015.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan orchmynion cychwyn O.S. 2010/930 (Cy.95) (C.63) ac O.S. 2011/2362 (Cy.248) (C.83).

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 19 | 1.4.2010 (i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 14 i 17, 18 a 19 o Atodlen 3). |
| Adran 22 | 1.2.2012 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym). |
| Atodlen 3, paragraffau 14 i 17 | 1.4.2010. |
| Atodlen 3, paragraffau 18 a 19 | 1.4.2010. |

Mae darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan orchmynion cychwyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 36 | 19.1.2010. | 2010/30 (C.5). |
| Atodlen 6 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r diddymu mewn perthynas â Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (p.12), ac adran 38 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r ddarpariaeth honno. | 1.10.2011. | 2010/1068 (C.70) fel y'i diwygiwyd gan 2011/1255 (C.49). |
| Atodlen 6 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r diddymu mewn perthynas ag adran 14(12) o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 (p. 36), ac adran 38 i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r ddarpariaeth honno. | 6.4.2012. | 2010/1068 (C.70) fel y'i diwygiwyd gan 2011/1255 (C.49). |

Mae amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Lloegr gan O.S. 2010/30 (C.5); O.S. 2010/779 (C.52); O.S. 2010/1068 (C.70); O.S. 2010/1863 (C.95) ac O.S. 2011/1255 (C.49).